

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 25) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 25) 2021.

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog

23 Rhagfyr 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau yn diwygio [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Rhif 5\) \(Cymru\) 2020](#) ("y prif Reoliadau").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y prif Reoliadau, fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws ar hyn o bryd, yn enwedig y cynnydd cyflym mewn achosion Omicron.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd o'r farn eu bod yn gymesur.

Mae'r prif Reoliadau yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (yr hawl i ryddid mynegiant, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (yr hawl i ymgynnull ac ymgysylltu'n rhydd ag eraill) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Rhaid hefyd cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddiadau'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a Rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r [Memorandwm Esboniadol](#) ar gyfer y prif Reoliadau yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a achosir gan nifer yr achosion o'r coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2), sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19, a'i ledaeniad.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau, gan gael effaith o 6:00 a.m. ar 26 Rhagfyr 2021, fel bod y sefyllfa fel a ganlyn:

- mae Cymru gyfan yn symud o Lefel Rhybudd 0 i Lefel Rhybudd 2 am 6:00 a.m. ar 26 Rhagfyr 2021;
- mae'n ofynnol i bersonau sy'n gyfrifol am "fangre reoleiddiedig" (h.y. gweithleoedd, mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd a cherbydau trafnidiaeth gyhoeddus) gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal rhwng personau yn y fangre, ac eithrio rhwng aelodau o grŵp a ganiateir sy'n cynnwys 6 pherson ar y mwyaf neu aelodau o'r un aelwyd ar Lefelau Rhybudd 1 a 2, neu aelodau o'r un aelwyd ar Lefelau Rhybudd 3 a 4;
- wrth benderfynu i ba raddau y mae'n rhesymol cymryd mesur penodol er mwyn sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau yn y fangre, caiff y person sy'n gyfrifol am y fangre roi sylw i fesurau eraill a gymerwyd i liniaru'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre;
- mae darpariaeth benodol yn cael ei gwneud ynglŷn â'r mesurau sy'n rhaid eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangre drwyddedig, gan gynnwys gofyniad i reoli mynediad i'r fangre ac i gwsmeriaid fod ar eu heistedd pan fyddant yn archebu bwyd neu ddiod (yn amodol ar rai eithriadau);
- mae darpariaeth benodol yn cael ei gwneud ynglŷn â'r mesurau sy'n rhaid eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangre manwerthu, gan gynnwys gofyniad i reoli mynediad i'r fangre, i ddarparu cynhyrchion diheintio dwylo, i gymryd mesurau ychwanegol i ddiheintio basgedi a throlïau etc., ac i ddarparu arwyddion a gwneud cyhoeddiadau i atgoffa pobl o'r rheol 2 fetr ac i wisgo gorchudd wyneb;
- mae'n rhaid gwisgo gorchuddion wyneb mewn mangreoedd lle caiff bwyd neu ddiod eu gwerthu, neu eu darparu fel arall, i'w bwyta ac i'w yfed yn y fangre, ac eithrio wrth eistedd;
- dylid trin pobl sy'n chwarae mewn digwyddiad camp tîm neu sy'n ymwneud â hyfforddi tîm mewn digwyddiad fel pe baent yn gweithio yn y digwyddiad ac nid ydynt yn cyfrif tuag at unrhyw derfyn ar niferoedd yn y digwyddiad (yn yr un modd ag y mae dyfarnwyr ac eraill sy'n ymwneud â rhedeg y digwyddiad);
- mae'r cyfyngiadau ar ymgynnull mewn anheddau preifat ac mewn llety gwyliau wedi eu dileu, gan ei bod yn ddarostyngedig iddi fod yn drosedd

cymryd rhan mewn cynulliad o fwy na 30 o bobl o dan do neu fwy na 50 o bobl y tu allan yn y lleoliadau hyn;

- mae'r eithriad i'r cyfyngiad ar ddiwyddiadau yn cael ei newid i alluogi unrhyw nifer o bobl i fynd i ddathliad priodas neu bartneriaeth sifil neu ddathliad person a fu farw yn ddiweddar a gynhelir mewn mangre reoleiddiedig (yn ddarostyngedig i'r uchafswm niferoedd a ganiateir yn y fangre yn unol â'r asesiad risg a mesurau rhesymol eraill a gaiff eu cymryd o dan reoliad 16 o'r prif Reoliadau);
- mae lleoliadau adloniant i oedolion a rhinciau sglefrio iâ wedi eu hepgor o'r rhestr o fusnesau y mae'n rhaid i'w mangreuedd gau.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, ymgysylltwyd ag amrywiol randdeiliaid gan gynnwys Is-adran Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio eto mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith i ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, mae asesiadau effaith cryno yn cael eu llunio a fydd yn cynnwys effaith symud Cymru i Lefel Rhybudd 2.